

From: Aled Thomas [REDACTED]
Date: 4 March 2017 at 19:34:37 GMT
To: "bethan.jenkins@cynulliad.cymru" <bethan.jenkins@cynulliad.cymru>
Subject: Cynnig i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

Annwyl Bethan Jenkins AC, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn y Cynulliad Cenedlaethol.

Ysgrifennaf atoch chi i ddatgan cynnig i roi gerbron y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu.

Fy nghynnig i chi yw i drafod am basio deddf neu gyfraith gwlad newydd fyddai'n galluogi i bob cwrs yng Nghymru fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Ar hyn o bryd, mae yna lawer o gyrsiau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ond nid yw'n wir am bob un cwrs sy'n bodoli yng Nghymru. Yn fy marn i, dylai bob cwrs fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar unrhyw lefel ymhob sefydliad addysg yng Nghymru, hynny yw, unrhyw gwrs o Addysg Gynradd hyd at lefel PHD yn y Brifysgol.

Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg. Ond nid oes cyfraith neu ddeddf gwlad sydd yn gwneud hi'n orfodol i bob cwrs yng Nghymru fod ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r strategaeth sydd yn bodoli ar hyn o bryd ond yn argymhell i sefydliadau addysg i gynnig y cwrs yn Gymraeg. Ond nid yw'r strategaeth yn gwneud hyn yn orfodol iddynt hwy ddarparu'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r strategaeth yn orfodol felly nid yw'n ddigon cadarnhaol, yn fy marn i.

Hoffwn weld y newid hyn yn digwydd achos mi fyddai'n hwb amhrisiadwy i'r iaith Gymraeg ac yn diwygio'r system addysg yng Nghymru.

Diolch am ystyried fy nghynnig.

Yn gywir,

Aled Thomas.

Fy manylion cyswllt yw:

[REDACTED]

[REDACTED]